YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1897. [RHIF 113.

JOHN JAMES, GELLIONEN.

XVIII.

YR oedd gan gynulleidfaoedd Capelygroes ac Ystrad er's blynyddoedd bellach weinidog iddynt eu hunain, tra nad oedd gan gynulleidfa Pantdefaid yr un, ac wedi bod heb yr un oddiar pan ymadawodd ei hen weinidog, John Thomas, ddechreu y flwyddyn 1829, i fyned i fyw at ei rieni oedranus yn Maenllwyd (XVI.) Bu apel ei gyfeillion yn Gellionen (XVII.), yn nghyda dylanwad Dr. T. Rees y tu cefn iddo, yn effeithiol i berswadio John James i aros gyda hwy, er yn ddigon tebyg wedi dyweyd wrthynt ryw amser cyn hyny ei fod yn bwriadu ymadael i ddychwelyd i Bantdefaid. Ar ol hyn ni bu fawr obaith gan y cyfeillion yn Mhantdefaid i gael John James yn weinidog sefydlog yn eu plith, ac ni wnaed un cynyg i'r perwyl byth wedi hyny, oddieithr y gellir golygu y llythyr a ysgrifenodd ei gyfaill, John Lloyd, ato, Awst 4ydd, 1846. Rhagor am y llythyr hwn nes yn mlaen.

Yn y ddau lythyr canlynol a ysgrifenwyd gan John Evans, Fairdrefawr, un o gyfeillion gwresocaf John James, ac un o brif noddwyr yr achos yn Mhantdefaid (XVI.), gwelir mor ofidus a gwangalon oedd y ddeadell fechan, heb yr un bugail i ofalu am dani, a gelynion yr achos yn llawenhau yn y meddwl ei fod yn dihoeni, ac y byddai yn fuan ddarfod am dano yn gyfangwbl. Yn y ddau lythyr hyn ymddengys nad oedd y cyfeillion yn Mhantdefaid mwyach yn bwriadu ceisio gan John James i roi fyny y weinidogaeth yn Gellionen, er mwyn iddynt hwy gael y budd o'i wasanaeth yn llwyrgwbl; ond mai eu dymuniad yn awr oedd, ar iddo eu cynorthwyo, ac ymweled â hwynt cyn fynyched ag y gallai—goreu i gyd po amlaf. Yn eu caledi dysgwylient gael ei gydymdeimlad a'i gymhorth ef yn anad neb.

"FAIRDREFAWR, AWST 20fed, 1832.

"GYFAILL ANWYL,—Achos y llythyr hwn eto, y mae yn ddrwg genyf ddywedyd, yw y gofid sydd yn tarddu oddiar yr olwg wanaidd a diflas sydd ar ein cynulleidfa yn barhaus, fel nad ydym yn deall pa beth i wneyd yn ein cyfyngder. Gallwch, i raddau, ddychymygu faint y blinder sydd arnaf, ac ar fy nghyfeillion yr un modd, wrth weled ein hachos, fu unwaith mor flodeuog, yn gwanhau bob dydd. Gyda theimlad yr wyf yn dywedyd, nad oes genym neb i droi ein gwynebau ato am gymhorth ond chwychwi yn unig; a phe caem eich presenoldeb yn fynychach, credu yr ydym mai buan iawn yr ail-flodeuai ein hachos, ac y byddai yr olwg arno cystal ag y bu erioed. Nid wyf yn teimlo fy hun yn rhydd heb draethu fy nghŵyn—ac y mae yn gŵyn llawer ohonom, gan obeithio y gwnewch ein gwrando. Yr ydym yn addaw cyfranu goreu y gallom at draul eich teithiau yn ol ac yn mlaen; a sicr yw y bydd gwobr well i chwi gan Dduw am galonogi achos gwirionedd a rhinwedd. Mae golwg dda genym ar David Lloyd (Dr. Lloyd), ond mae ef yn dyweyd na all ddyfod atom ond un Sul yn y mis; ac y mae yn foddlon dyfod i Gellionen un Sul y mis, neu ragor, yn eich lle chwi, neu fyned i lanw lle Mr. J. Thomas. Ein taer ddymuniad yw ar i chwi, heb omedd, ddyfod atom ni dydd Sul wythnos i'r nesaf; os de'wch, rho'wch wybod i ni erbyn dydd Sul nesaf, fel y gallom ysgrifenu at Lloyd i ddyfod yn eich lle chwi i Gellionen; mae wedi addaw y bydd yn siwr o ddyfod ond rhoi gwybod iddo mewn pryd. Yn wir, meddaf, fy ngobaith, a gobaith fy nghyfeillion yw, y gwnewch bob ymdrech a alloch i ddyfod atom y Sul dywededig. Rhydd hyny gysur mawr i ni, a bydd yn gefnoctyd hefyd mewn amser mor oerllyd ag yw gyda ni yn bresenol. Hyderwn yn fawr gyda'n gilydd y cawn eich gweled ar yr amser dywededig. Hefyd, rho wch wybod i ni mewn pryd y gwnewch gydsynied â'n cais.

"Eich cyfaill cywir,

"JOHN EVANS."

"FAIRDREFAWR, TACHWEDD 16eg, 1832.

"GYFAILL ANWYL,—Derbyniais eich llythyr diweddaf y 12fed o'r mis hwn, ac yr oedd yn dda genyf ei gael, a gwybod eich bod yn bwriadu dyfod atom i bregethu y Sul nesaf ond un. Darfu i Mr. Thomas eich cyhoeddi. Yn mhellach, yr wyf am ddyweyd fy mod yn credu, os bydd i chwi a Mr. Thomas gymeryd ein gofal arnoch fel cynulleidfa, y bydd i chwi ein cadw mewn undeb. Heblaw hyn, bydd y gynulleidfa yn sicr o fyned i lawr—i'r dim, efallai, yr hyn nid yw yn anhebyg yw dymuniad llawer. O'r tu arall, yr wyf yn credu y bydd i achos y gwirionedd yn Mhantdefaid lwyddo mor dda, os nid gwell, nag erioed o'r blaen, os gwnewch chwi eich dau ei gefnogi.

"Yr eiddoch, &c.,

"JOHN EVANS."

Mewn llythyr oddiwrth John Thomas at gyfaill, a ysgrifenwyd ganddo yn Maenllwyd, dyddiedig Medi 29ain, 1835, dywed: "Bu farw fy mam y 3ydd o'r mis hwn, ac y mae fy nhad a minau yn bwriadu symud i Landysul dydd Sadwrn nesaf." Er pan ymadawodd John Thomas o Landysul, ddechreu y flwyddyn 1829, hyd ddechreu Hydref, 1835, gorfu ar gynulleidfa Pantdefaid, yn amddifad o weinidog, ymddibynu ar wasanaeth a charedigrwydd *supplies*, yn mhlith y rhai y gellir enwi yn benaf ei chyn-weinidog John Thomas; John James, Gellionen; Rees Davies, Capelygroes ac Ystrad; John Jones, Rhandir; ac Owen Evans, Birdlip;—o'r ddau olaf bu y cyntaf wedi hyny yn weinidog yn Aberdar, a'r ail yn Cefncoedycymer. Mae yn sicr i John Thomas, yn union-gyrchol ar ei ddychweliad i Landysul, ymgymeryd â'r weinidogaeth yr ail waith yn Mhantdefaid; ac felly ni aflonyddwyd mwyach ar heddwch meddwl John James, trwy aml ddeisyf arno i gymeryd gofal y gynulleidfa hono; a chafodd lonyddwch i wasanaethu eglwys Gellionen hyd o fewn i ddwy flynedd i'w farwolaeth, pan y canlynwyd ef yn y weinidogaeth gan y diweddar John Evans.

Yn y flwyddyn 1846, yr oedd John James yn driugain ac wyth oed, ac wedi bod yn weinidog yn Gellionen am oddeutu deuddeg ar hugain o flynyddau. Heblaw ei lafur gweinidogaethol, agorodd Ysgol yn y Fardre, lle yr oedd yn byw, y 5ed o Ionawr, 1819, a chadwodd hi yn y blaen yr un mor gyson a'r weinidogaeth, fel pe yn rhan anhebgorol ohoni, ac felly yr oedd yr amser hwnw. Ag ystyried ei oedran, a'i lafur caled a dibaid yn y ddau gylch hwn, heb son am lawer o wasanaeth a ofynid oddiwrtho tuallan, fel cymydog ac aelod cymdeithas, gellid meddwl y dylasai gael ei ollwng yn rhydd o'i harnais, i gael mwynhau esmwythyd tangnefeddus dros weddill ei ddyddiau. Amlygodd John James ei hunan ddymuniad am hyny, ond ni chafodd gydsyniad ei gyfeillion, am y credent ei bod eto yn rhy gynar iddo encilio o faes ei lafur, ar yr hwn yr oedd wedi bod yn gweithio gyda chymaint o gymeradwyaeth a llwyddiant.

"FARDRE, MEHEFIN 18fed, 1846.

"FY ANWYL GYFEILLION,—Gwelir fod cynulleidfaoedd yn gyffredin yn oeri ac yn gwywo dan weinidogaeth hen weinidogion, er hyny, ni oddef teimladau yr aelodau iddynt gynghori eu gweinidogion hen ac egwan i roddi eu swydd heibio i rai ieuengach a mwy galluog. Wrth sylwi ar hyn pan yn ieuanc, yr oeddwn yn penderfynu rhoddi fyny'r weinidogaeth yn driugain, neu o'r hwyaf yn driugain a phump oed, os byddai i'm heinioes a'm hiechyd gael eu hestyn hyd hyny. Yr wyf yn awr yn yr wythfed flwydd a thriugain o'm hoed, ac eto heb roddi fyny'r weinidogaeth, er teimlo effeithiau henaint. Y mae hyn yn peri blinder mynych i mi, wrth feddwl, o bosibl, fy mod yn cadw lle a allai gael ei lanw gan arall gyda mwy o les i chwi a mwy o lwyddiant

i'r gwirionedd. A chan fy mod yn gwybod ei bod yn rhy anhawdd i chwi geisio genyf roddi heibio swydd sydd yn gofyn cof cryf a galluoedd bywiog, yr wyf wedi penderfynu eich rhyddhau oddiwrth y cyfryw anhawsdra, trwy hysbysu i chwi fy mwriad i roddi heibio swydd gweinidog yn eich plith gyda diwedd y flwyddyn hon, neu yn gynt, os gellwch chwi gael gweinidog a'ch boddio yn fy lle.

"Ydwyf, fy anwyl gyfeillion,

"Eich gwasanaethwr ffyddlon,

"JOHN JAMES."

"At Gynulleidfa Gellionen."

Wedi deall fod John James wedi rhybuddio cynulleidfa Gellionen o'i fwriad i roi fyny y weinidogaeth yn eu plith, meddyliodd ei gyfeillion yn Mhantdefaid, y rhai oeddent heb weinidog ar y pryd, y gwnai ddyfod yn olatynt hwy, a gwnaeth y diweddar John Lloyd, Aberglasne, ger Pontshan, ysgrifenu ato i'r perwyl y 4ydd o Awst, 1846, ond ni thyciasant.

Yn ddiamheu fod amryw o aelodau y gynulleidfa yn awr ac eilwaith, pan gyfarfyddent yn ddamweiniol â'u gilydd, wedi bod yn ymddyddan yn nghylch y rhybudd uchod; ond nid oedd cyfarfod arbenig wedi cael ei alw i drafod y mater cyn Hydref 29ain, —mwy na phedwar mis wedi i John James hysbysu ei fwriad i ymddiswyddo fel gweinidog. Paham yr oedwyd cyd nis gellir gwybod, ac nid yw hyny o bwys chwaith; ond beiddiaf ddyweyd, oddiar fy ngwybodaeth fy hun, fod y teimlad goreu yn bodoli rhwng y gweinidog a'r gynulleidfa, a dangoswyd hyny yn y cyfarfod a gynaliwyd. Ofnai John James, ysgatfydd, nad oedd, ar gyfrif ei oedran, yn gallu cyflawni ei ddyledswyddau i foddlonrwydd y gynulleidfa; ond nid oedd y gynulleidfa hyd yn hyn wedi deall fod henaint wedi effeithio nemawr, os dim, arno. Gan gystal ei gof, a'i graffder meddwl, a'i fywiogrwydd corfforol, golygent ef nid amgen dyn ieuanc triugain ac wyth oed. Yr wyf fy hun yn cofio yn dda am dano yr amser hwnw, ac ymddangosai i mi braidd mor heinif, ac mor llawn o fywyd ac yni, ag y cofiwn am dano gyntaf erioed. Y mae hefyd lawer yn fyw, yn enwedig yn nghylchoedd Gellionen, yn cofio am dano yn ogystal, a gallant ddwyn yr un dystiolaeth. Dyn rhyfeddol ydoedd—neb yn fwy rhyfeddol yn mhlith Undodiaid Cymru yn y ganrif hon.

Ar ol y cyfarfod yn Gellionen ar y 29ain o Hydref, anfonwyd y llythyr canlynol, o'r un dyddiad, i John James; ond cofied y darllenydd mai cyfieithiad ydyw o'r Saesoneg, anystwyth iawn hefyd. Awdwr y gwreiddiol, ar gais y gynulleidfa, oedd Richard Rees, Ysw., Alltycham, brawd Dr. T. Rees:—

"Y PARCHEDIG JOHN JAMES.

"ANWYL SYR,—Yr ydym ni, mwyafrif y gynulleidfa o Ymneillduwyr Protestanaidd arferol o gyfarfod mewn addoliad

crefyddol yn Gellionen, y rhai y mae ein henwau isod, yn teimlo yn wir ofidus oherwydd cael ohonom y newydd annymunol o'ch bwriad i roi i fyny y weinidogaeth Nadolig nesaf.

"Y sêl, y gallu, a'r hunanymwadiad ydych wedi ddangos yn ystod y blynyddau lawer yr ydych wedi bod yn llafurio yn ein plith, a'r budd, fel y gallwn chwanegu, gobeithio, a ddarfu i ni a'n teuluoedd dderbyn oddiwrth eich gwasanaeth gwerthfawr, a bair i ni oll wir dristwch calon wrth feddwl eich bod o fwriad i'n gadael.

"Nis gallwn, gan hyny, lai na thraethu ein gobaith y gwnewch ail-ystyried eich penderfyniad, a'r canlyniadau a ddichon ddeilliaw oddiwrth eich ymadawiad â ni; tra yr ydym ar yr un pryd yn eich sicrhau mai ein dymuniad yn wir-ddifrif yw y gwnewch barhau yn weinidog i ni tra gwelo yr Hollalluog yn dda i roi i chwi iechyd a nerth. Gan ddymuno i chwi iechyd a phob dedwyddwch, Ydym, anwyl Syr, eich didwyll gyfeillion,

"Henry Bowen; David Bowen; Lewis Williams; William Williams; Richard Rees; Sarah Rees; Hopkin John; Mary Bowen, Clynmeirch; Gwenllian Williams, Tygwyn," &c., &c.

"Ty Cwrdd, Gellionen, Hydref 29ain, 1846."

Llawnodwyd y llythyr uchod gan ryw gant o'r aelodau, ac yr oedd llawer, efallai y mwyafrif ohonynt, wedi llawnodi yr apel y 14eg o Chwefror, 1832 (XVII.) Dyna'r prif reswm na buaswn wedi gosod yr oll o'r enwau wrth y llythyr hwn.

Anfonodd Richard Rees lythyr y gynulleidfa i John James, a chydag ef yr ychydig linellau canlynol o'r eiddo ei hun, wedi eu Cymreigio gan yr ysgrifenydd :—

"ALLTYCHAM, TACHWEDD 10fed, 1846.

"FY ANWYL SYR,—Mae yn bleser mawr genyf i anfon i chwi y llythyr amgauedig oddiwrth gynulleidfa Gellionen. Y mae yn fynegiad o deimladau yr oll o'r personau y rhai y mae eu henwau wrtho; ac yr wyf yn dra hyderus y caiff genych yr ystyriaeth sydd ddyledus iddo.

"Wyf, fy anwyl Syr, yr eiddoch yn wir ddidwyll,

"RICHARD REES."

"Parch. John James."

Wedi darllen llythyr y gynulleidfa gyda phwyll ac ystyriaeth, a gweled eu bod oll fel aelodau mor wresog ac unfrydol yn dymuno arno i aros gyda hwy yn y blaen, nis gallai John James lai na chydsynio, ac efe a anfonodd ei ateb fel y canlyn :—

"FARDRE, TACHWEDD 22ain, 1846.

"FY MRODYR ANWYL,—Wedi egwan gyflawni swydd gweinidog yn eich plith dros ddeuddeg mlynedd ar hugain, y mae yn

gysur nid bychan i mi i wybod eich bod eto yn ewyllysio i mi barhau yn weinidog i chwi tra pharhao fy iechyd a'm nerth. Nid oedd dim yn fy nghymhell i benderfynu rhoddi i fyny swydd gweinidog gyda diwedd y flwyddyn hon, ond oedran a'i wendidau, a rhaid i chwi, yn gystal a minau, ddysgwyl o hyn allan, ar ol triugain ac wyth o flynyddau, y bydd effeithiau oedran i gael eu teimlo a'u gweled yn cynyddu bob blwyddyn, hyd oni ddarfyddo holl alluoedd meddwl a chorff yn llwyr. Am hyny, ni allaf ddangos fy niolchgarwch i chwi am eich cymeradwyaeth serchog o'm gwasanaeth anmherffaith iawn, yn well na thrwy eich anog i edrych am weinidog ieuengach mor gynted ag y galloch, a gwneyd a allwyf i'ch cynorthwyo i'w gael. Ac os felly y gwnewch, byddaf gyda hyfrydwch yn aros yn weinidog i chwi yn ol eich dymuniad dros ychydig o amser yn mhellach, os caniata iechyd a nerth, tra y caffoch amser i edrych am weinidog cymhwys i'm canlyn.

"Ydwyf, fy mrodyr anwyl,

"Eich gweinidog ffyddlon,

"JOHN JAMES.

"At Mri. Henry Bowen a David Bowen, Diaconiaid, a'r gynulleidfa arferol o ymgynull yn y Gellionen."

O hyn allan, hyd y terfyn yn 1862, nid wyf yn gwybod am ddim o bwys mewn cysylltiad uniongyrchol â gweinidogaeth John James a fyddai o un dyddordeb neillduol i'w gofthau. Cafodd oes faith, ac ni bu hyd yma un gweinidog yn fwy llafurus, llwyddianus, a pharchus yn mhlith Undodiaid Cymru. Bu farw y 1af o Fedi, 1864, yn bedwar ugain a phump oed. Ar y 6ed dygwyd ef gyda'r gludres i orsaf Llandysul, lle yr oedd torf fawr o gyfeillion a chydnabod wedi ymgynull i'w gyfarfod, ac oddiyno yr un dydd, "ar ei elor gyda galar, dygwyd ef" i'w fedd yn mynwent Pantdefaid, yn ol ei ddymuniad, fel y crybwyllwyd yn flaenorol.

T. T.

ER COFFADWRIAETH AM JAMES GRIFFITHS, VICTORIA PARK, GER LLANBEDR.

DYSGWYL mwyniant perlau gwychder, dysgwyl cysur o bob tu;
Ond y cwbl droir yn ofer—dyna ffawd ein cyfaill cu.

Mae rhyw hiraeth yn fy mynwes, mae oer ddeigryn ar fy ngrudd,
Gwel'd fy nghyfaill ieuanc grymus wedi ei roi mewn gwely pridd.

Yn yr ysgol yn cyd-ddysgu, 'run chwareufa'n gwneyd y tro:
Yn blanhigion yn cyd-dyfu—ond gwnaeth angeu dori'r clo.

I Brondeifi daeth yn gyson, cwrdd ac ysgol llanwai'i le ;
Ac nid byth gwnai James ymryson, ond gwnai foli Brenin Ne'.

Sobr a duwiol oedd ei fuchedd, yn y wlad ac yn y dref,
Ar y maes, 'run modd mewn marchnad, yr un bob amser ydoedd ef.

Pan y clywsom am ei farw, suddodd siomiant i bob bron ;
Gweled James, oedd iach a heini', wedi gado'r fuchedd hon.

O nyni, ieuenctyd Gwalia, bydd yn rhaid i ninau fyn'd
I ardaloedd gwlad y gwynfyd, lle cawn eto gwrdd â'n ffrynd.

New York. REES DAVIES.

Y BEIBL.

FEL rheol, y mae yna wahaniaeth mawr rhwng yr hyn sydd a'r hyn ddylai fod. Beth sydd ? Yr hyn welwn o amgylch i ni ddydd ar ol dydd : llafur, a phoen, a thrallod. Beth ddylai fod ? Yr hyn ddychymygwn yn ein breuddwydion : nefoedd, mwyniant, a hedd. Rhwng y ddwy ystad, y mae Duw fel pe bai wedi gosod gagendor mawr ; ar brydiau, ymddengys fel peth anmhosibl i ddyn groesi o un i'r llall. Ond y mae goreuon y byd wedi ei gwneyd hi yn ymdrech bywyd i ddwyn y ddwy ystad yn nes at eu gilydd ; y mae dynoliaeth oddiar y dechreu hyd yn awr wedi gosod un nod uchel o'i blaen ; a hyny yw, i wneyd y ddaear yn debyg i'r nef, i wneyd yr hyn sydd i gytuno â'r hyn ddylai fod. A chredwn fod rhai pobl wedi llwyddo yn eu hymdrechion ; yr hyn ni welodd llygad ac ni chlywodd clust ganrifoedd yn ol, y mae yn ngallu miloedd heddyw i weled ac i glywed ; am fod seintiau unwaith wedi cerdded daear, y mae ei gwyneb heddyw i raddau yn debyg i wyneb y nefoedd ; erbyn hyn, gellir dyweyd fod y gagendor mawr yn raddol yn llanw i fyny. Nid adenydd sydd yn eisieu er cyrhaedd nefoedd, ond penderfyniad diysgog i fyned yn mlaen ac i fyny, i ymdrechu ymdrech deg, i godi o ris i ris, nes colli ein hunain o'r diwedd yn nghanol y cwmwl tystion.

Y mae gwahaniaeth mawr, dywedwn, rhwng yr hyn sydd a'r hyn ddylai fod.

Beth *yw* y Beibl ? Rhywbeth osodir o'r neilldu yw, fel dydd Sul. Fynychaf, y Beibl yw yr un llyfr ni agorir bron byth mewn tŷ. Addurn yw, welir yn gyffredin ar ford y parlwr. Y tudalenau mwyaf pwysig ynddo ydynt y rhai oeddynt gynt yn wag, ond yn awr gynwysant hanesion teuluaidd, megys priodasau, genedigaethau, a marwolaethau. Mewn llysoedd barn, llyfr yw i wneyd

llw arno. Ar faes y frwydr, os credwn rai ystoriau, y mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn fel tarian. Tuhwnt i'r môr, y mae wedi bod o wasanaeth mawr fel esgus i agor masnach gydag anwariaid. Pan ei gosodir yn llaw yr uniawngred, offeryn yw, yn fynych, er saethu adnodau at hereticiaid. Y mae rhai Undodiaid hefyd a'i defnyddiant i gyffelyb bwrpas.

Beth *ddylai* y Beibl fod? Yr Alpha a'r Omega, meddai rhai; yr un llyfr y gellir troi ato yn mhob cyfyngder; y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir; Gair Duw, o ddechreu Genesis i ddiwedd Datguddiad; rheol bywyd i ddyn ar y ddaear; goleuni i'w dywys ar ei ffordd i'r nef; cyfrol ysbrydoledig, a chanddi allu byth i ysbrydoli; cyfrol i fyw ac i farw wrthi; cyfrol i'w gosod yn llaw y plentyn, y canol oed, a'r henafgwr; cyfrol nas gellir ychwanegu ati na chymeryd oddiwrthi; safon gwirionedd tufewn i'r Eglwys; angor gobaith mewn amheuaeth; yr unig lusern wrth ba un i droedio'r glyn.

Ar un llaw, ynte, y mae yna rai pobl na dderbyniant un lles oddiwrth y Beibl; ar y llaw arall, y mae yna rai ddysgwyliant ormod oddiwrtho. Yn mysg y dosbarth blaenaf, gellir gosod y rhai ddywedant eu bod yn ei gredu, bob gair ohono, er nad ydynt erioed wedi ei ddarllen drwyddo; hwy ydynt, fynychaf, y mwyaf parod i labyddio y proffwydi. Yn mysg y dosbarth arall, deuwn ar draws dynion ydynt yn hollol onest yn eu cred fod y Beibl yr hyn feddyliant yw—llyfr ar ei ben ei hun, yn dyfod yn union-gyrchol oddiwrth Dduw, o flaen pa un nid oes gan reswm ddim i wneyd ond plygu pen a thewi.

A rhwng y ddau ddosbarth yma—y credinwyr dall a'r credinwyr trwyadl—y mae gagendor mawr, lenwir gan bob math o bobl; y gwahanol sectau yma ydynt, i ryw fesur, yn deilwng o'u galw yn Undodiaid, ydynt o'r hyn lleiaf yn berchen ar yr ysbryd Undodaidd, ydynt cyn hyn wedi ymwrthod âg awdurdod y fam-Eglwys, ac wedi sefyll dros ryddid barn, ydynt hyd heddyw yn dal yn dyn wrth y ffydd mai da yw iddynt weithio allan eu hiachawdwriaeth yn eu ffordd eu hunain, ond ydynt, fel y mae gwaetha'r modd, y cyntaf i godi yn erbyn y sawl wnant gario allan yn drwyadl eu hegwyddor o ryddid barn a hawl i bob dyn i feddwl drosto'i hun. Hoff waith y gwŷr berthynant i'r gwahanol sectau yma yw chwilio yr Ysgrythyrau er mwyn cael gafael mewn adnodau i brofi mai hwy sydd yn iawn. Y maent mewn penbleth mawr yn fynych i wybod beth i wneyd neu beth i ddyweyd, am fod yn natur rhai adnodau i fod mor groes ac i wrthod dwyn y baich osodir arnynt. Yn sicr, byddai ysbryd gwell yn ffynu rhyngom bawb â'n gilydd pe gallem yn awr ac eilwaith weled a chyfaddef mor ddigrif yw'r sefyllfa ar rai prydiau, a pha mor rwydd yw ffeindio adnod i brofi pob pwnc bron. Y dydd o'r blaen yr oeddym yn darllen hanes rhyfedd; dyn yn esgusodi ei hun am fod yn feddw drwy ddyweyd mai ufuddhau gorchymynion yr Ysgrythyr oedd. Rywfodd neu gilydd, yr oedd yr ynad yn methu gweled lygad-yn-llygad â'r cyhuddedig; a

dyna fe'n gofyn am gopi o'r Beibl. Rhoddwyd copi iddo, ac heb un petrusder trodd at Diarebion, yr unfed benod ar ddeg ar hugain, a'r chweched a'r seithfed o adnodau, a darllenodd hwynt i'r ynad ar y fainc; ac, wrth gwrs, rhaid oedd i hwnw basio dedfryd o "Ddieuog."

Nid ydym am foment am ddyweyd fod yr Undodiaid wedi dangos yr ysbryd teg rhesymol yma tuag at eu gwrthwynebwyr bob amser. Nid felly y darllenwn hanes yr ymdrechfa y bu raid i Undodiaeth basio drwyddi. Ar y dechreu, ni wyddai ein cyndeidiau beth i ymosod arno, na b'le i sefyll. Ymdrechent roddi cystal dyrnod a dderbynient, a dyna'r cyfan. Os gallai yr uniawngred ddangos adnodau i brofi eu hochr hwy o unrhyw gwestiwn, gallasai yr Undodiaid, o'u hochr hwythau, ddwyn adnodau er profi syniad croes; a 'doedd duwinyddiaeth y pryd hwnw nemawr gwell na brwydr rhwng adnodau. Brwydr frwd oedd hi yn fynych, a chollai pob ochr eu tymher, a dechreuid dywedyd pethau cas am eu gilydd, am y Beibl, am bob peth.

Cyfaddefwn yn ddigon rhwydd fod bai wedi bod ar Undodiaid, eu bod wedi pwno gormod ar fanau gweinion y Beibl, eu bod ar brydiau wedi dwyn yr Hen Lyfr i wawd a dirmyg, eu bod wedi gwneyd defnydd anheilwng ohono, mai priodol peth, a dyweyd y lleiaf, yw cymeryd pawb a phobpeth pan ar eu goreu; fod y Beibl wedi bod yn was ffyddlon i'n dwyn hyd yma ar ein taith grefyddol, a'i fod yn teilyngu peth o'r cariad a'r tynerwch deimlir yn gyffredin at hen weision. Ond beth dâl siarad? Yr oedd y gwahanol sectau mor gyndyn yn eu sêl, mor hoff o addoli y Beibl, mor ddyfal i erlid pob heretic, fel nad yw o un syndod fod y frwydr ar rai prydiau dipyn yn drwsgl. Nid pawb sydd yn berchen ar ysbryd cyffelyb i eiddo Emerson: "Here was an iconoclast," meddai cyfaill iddo, "here was an iconoclast without a hammer, who took our idols from their pedestals so tenderly that it might almost seem an act of worship."

Gan nad beth yw barn gwahanol Undodiaid am y Beibl, teimlwn yn sicr mai yr ysbryd teg rhesymol yna oedd yn Emerson ddylai fod yn mynwes pawb ohonom—ysbryd o amynedd pan y mae pawb o amgylch i ni yn gwylltu, ysbryd o dynerwch at hen golofnau ydynt yn dadfeilio, ysbryd o degwch wna gyfaddef mesur ein dyled i'r gorphenol. Erbyn hyn, nid oes eisieu gwylltu. Gŵyr y cyfarwydd fod yna bobl tufewn i'r eglwysi uniawngred ydynt yn ymladd brwydr Undodiaeth yn llawer mwy llwyddianus na'r Undodiaid o'r tuallan. Er's blynyddoedd bellach, y mae dysgedigion wedi bod yn parotoi eu crymanau. Y mae peth o'u llafur eisoes ar y Testament Newydd wedi dyfod i fewn. Daw cynhauaf yr Hen Destament yn fuan. Yn raddol, raddol, daw pobl i ddeall mai gwaith gwahanol ysgrifenwyr yw y Beibl; ffrwyth gwahanol gyfnodau yn hanes y genedl Iuddewig, ffaeledig fel y bobl a'u gosodasant wrth eu gilydd, anmherffaith oherwydd yr anmherffeithrwydd sydd bob amser yn amgylchynu ymdrechion goreu dynolryw—ond eto, hynod berffaith pan y

cofiwn pa mor rwydd yr oedd y pryd hwnw i wneyd cansyniadau; hynod anffaeledig pan yn siarad cysur wrth y galon ddrylliog; Llyfr fydd ganddo rywbeth i ddyweyd wrth bob cyfnod o'r dyfodol cyhyd ag y cynhyrfir pobl gan yr un teimladau wneir yn awr; cyfrol ysbrydoledig, os mynir, os cofir mai o'r dyn ac o'r Duw yn y dyn y daeth yr ysbrydoliaeth ar y cyntaf. Fe wawria dydd newydd ar yr uniawngred cyn bo hir; daw eglwysi cred i deimlo mai nid llai, ond mwy, y clod dyledus i ddyn; os bu yn ngallu dynion i greu Beibl yn yr amser gynt, pa faint mwy y gwyrthiau ellir ddysgwyl oddiwrthynt yn y dyfodol!

PEREGRIN.

JOHN ISHMAEL JONES.

III.

AC yn awr, tra mae y gweinidog ieuanc yn gorphwys oddiwrth ludded y daith, ac yn parotoi gyferbyn a thraddodi y Gair yfory, yr hwn fydd yn gyweirnod i'r gwaith ag y mae wedi ymgymeryd âg ef yn B———, gadewch i ni edrych yn ol am ychydig, er gweled pa fath ddyn ydyw.

Mewn corffolaeth yr oedd ychydig yn dàlach na'r cyffredin, yn sefyll yn syth, gydag ysgwyddau llydain, ac o gyfansoddiad cryf. Yr oedd ganddo ben mawr, yn orchuddiedig gan wallt tywyll a modrwyog. Meddai ar dalcen uchel a llydan, tra o dano y mae dau lygad mawr, wedi eu gosod mor ddwfn, fel yr ymddangosent yn llai na'u gwir maintioli, oddigerth pan y buasai yn cael ei gynhyrfu wrth anerch torf o bobl ar ryw gwestiwn pwysig. Yr oedd ei drwyn yn fawr, cywir, ac amlwg, a'i wefus uchaf yn hollol orchuddiedig gan farf hir, gyda'r eithriad yma, yr oedd ei wyneb i gyd yn llyfn. Nis gallesid ei alw yn brydferth, ond yr oedd yn olygus, a ffurf ei wyneb yn dynodi cymeriad penderfynol.

Gwisgai yn syml a glanwedd, mor syml, fel yr anghofiai un y dillad, a sylwai yn unig a chofiai am y person.

Cadwai tu cefn iddo y fath adgof am ymdrech a llafur, yr hyn a'i cymhwysai i ddeall, a'i ddwyn i gysylltiad a chydymdeimlad parod â'r tlawd a'r angenus yn mhob man.

Wedi ei eni mewn tlodi, yn fab i lafurwr caled, efe a gadwai bob amser yn grogedig yn ei fyfyrgell, ddarlun o'r "Bachgen Troednoeth," gan Whittier, fel adgof am ei blentyndod ei hun. Llawer tro, pan yn cysgu o dan y to noeth, yn nen y ty, yn yr hen amaethdy bychan llwyd, tra y gauaf garw a'r ystorm yn ei siglo a'i suo i gysgu, y dihunai yn y boreu a chael fod yr eira wedi d'od i fewn drwy y tô, ac hyd yn nod yn gorchuddio rhan o'i wely bychan. Codai bob boreu drwy y gauaf am bedwar o'r gloch, i

gynorthwyo ei dad gyda gwaith y fferm, cyn y byddai yn amser iddo fyn'd i'r ysgol; a sut yr arferai ymdrybaeddu drwy yr eira i hen ysgol y pentref, yn llwm a charpiog ei ddillad, a sut yr ymdrechai yn galed i gadw yn ol y dagrau oedd yn gorlanw ei lygaid.

Yr oedd yn naturiol o feddwl crefyddol cryf, wedi ei fagu a'i feithrin yn ofalus yn holl olygiadau traddodiadol a ffyrdd iawnffyddiaeth. Breuddwydiai o'i febyd am waith Iesu yn Judea, ac am anialwch diffaeth a thywyll paganiaeth, nad oedd wedi clywed am Ei enw, arferai ryfeddu paham na fyddai pawb dynion yn weinidogion Ei Efengyl. Nid oedd yn cofio yr amser pryd y penderfynodd ei hunan i fod yn un.

Cafodd ei fagu yn nghanol y golygfeydd mwyaf rhamantus a phrydferth, yr hyn a ddylanwadodd yn fawr ar ei feddwl bywiog. Safai yr amaethdy ar ben y bryn, uwchben afon risialaidd, yr hon oedd yn ymddolenu ar ei thaith drwy y goedwig a'r doldir, ac ymgollai yn y bryniau a'r mynyddoedd a safent o'i dau tu, cyn y buasai yn arllwys ei hunan yn y môr.

Chwiliodd yn ddyfal drwy lyfrgell y pentref, a gwleddodd yn foreu ar athrylith a digrifwch gweithiau Charles Dickens; darllenodd yr holl lenyddiaeth Gymraeg, yn enwedig barddoniaeth, a allai gael gafael ynddo, ac aeth drwy "Goll Gwynfa" Milton ddwy waith, cyn fod ganddo *idea* gyffredinol am lenyddiaeth, na lle yr awduron yma ar lechres enwogrwydd y byd. Ymosododd twymyn farddoni arno yntau, twymyn ag sydd yn anocheladwy i blant meddylgar ac ystyriol. Ysgrifenodd cyn ei fod yn un-arbymtheg oed ddigon o farddoniaeth i gyhoeddi llyfryn bychan, ond gwyleidd-dra, efallai, yn hytrach na thosturi tuag at ddynoliaeth, a'i hataliodd i gymeryd y cam hwn. Y fath ydynt y darluniau pwysicaf ydynt yn grogedig yn ystafelloedd ei gof.

Ar ei fynediad cyntaf i'r Athrofa, yr oedd ei barch tuag at ei athrawon dysgedig y fath, fel na wnai ddim ond derbyn y cyfan o'u haddysgiadau. Ystyriai hi yn feiddgar a rhyfygus, pan y buasai rhyw fyfyriwr achlysurol yn beiddio amheu gosodiadau yr athraw mewn duwinyddiaeth, a meddyliai y byddai gwawd a sen o'i ofyniad yn well iddo nag eglurhad. Gofynodd myfyriwr i Dr. W—— unwaith, paham yr oedd Dwyfol Ysbrydoliaeth yn angenrheidiol er mwyn ysgrifenu Llyfr Diarhebion. Llethodd y Doctor ef drwy ofyn iddo fyn'd ac ysgrifenu cystal penod ei hunan. Ar yr amser hwn edrychai Ishmael ar yr atebiad yma fel yn derfynol. Nid arosai i feddwl, ar yr adeg yma, na allasai ugain o ddynion yn Llundain ysgrifenu Shakspeare, ond braidd yr oedd hyn yn ddigon i brofi fod Shakspeare wedi ei ysbrydoli, ac yn anffaeledig. Ond tua diwedd ei yrfa golegawl, fe ddechreuodd ddefnyddio ei ymenydd ei hunan, a meddwl drosto ei hunan. Nid am ei fod yn y mesur lleiaf yn amheu *system* iawnffyddiaeth, yn mhell iawn oddiwrth hyny; ond dechreuodd deimlo, tra y gallasai y peth a'r peth fod yn wir, nis gallasai ef bregethu adsain meddyliau dynion ereill. Yr oedd yn rhaid iddo fod yn wir iddo ef cyn y beiddiai ei

ddysgu i ddynion. Ac fel yma, heb yn wybod iddo, gollyngodd i fewn egwyddor ag oedd yn ddinystriol iddo i aros yn ei hen ffydd, a'r hon oedd i'w arwain ar hyd llwybr hir a blinedig a phoenus. O dan y fath amgylchiadau a dylanwadau yr ymgymerodd â gwaith ei fywyd. Nid oedd Duw i'w gael ond yn y Beibl yn unig, fel yr oedd yn cael ei osod allan yn yr ysgrifeniadau poblogaidd. Yr oedd dyn yn llygredig, a meddylwyr mawr y byd wedi colli pob gweledigaeth ysbrydol drwy eu hir gysylltiad â mater.

Pan y gorphenodd ei yrfa dduwinyddol, dywedodd wrth ei gyfaill: "Os ydych chwi yn dewis setlo lawr mewn rhyw gornel tawel, a myn'd yn y blaen yn esmwyth a diofal, nid wyf fi. Yr wyf fi yn myn'd allan i'r byd."

"Ond beth a gewch allan ond gwaith garw a chaled?" gofynai ei gyfaill.

"Mi gaf wel'd ac adnabod dynoliaeth; mi gaf wel'd sut y gweithia fy nuwinyddiaeth i allan mewn bywyd ymarferol. Ac os y dymunaf setlo lawr mewn rhyw fan gwledig, tawel, mi allaf lafurio gyferbyn a'r ddau faes."

Felly ymaith ag ef, i fyny ac i waered y wlad, chwilio y maes yn ddyfal, angenion y lle hwn a'r lle arall, ac o'r diwedd sefydlodd mewn tref nad oedd yn enwog am ei moesau, a dechreuodd bregethu mewn ysgoldai ac ar gornel yr ystrydoedd, fel y gallai gael gwrandawiad. Fe ddysgodd un peth ag a fu o ddefnydd anhraethol iddo drwy ei holl fywyd, a hyny oedd sefyll yn gadarn ar ei draed ei hun, a gosod y dyn o flaen y gweinidog. Fe gafodd allan yn fuan fod y "Parch." ag oedd o flaen ei enw, yn lle bod yn gymhorth iddo, yn cael edrych arno fel rhyw dwyllwr crefyddol. Ar ol iddo brofi ei fod yn ddyn, y pryd hwnw y dechreuasant, am y tro cyntaf, i barchu y gweinidog. Nid am fod ganddynt ddim yn erbyn gweinidogion fel y cyfryw, ond yr oedd y teitl wedi bod mor fynych yn glogyn i *sham* a rhagrith, ac yr oeddent am gael gwybod beth oedd o dan y brethyn.

Felly ar ol i Ishmael i droi allan rai *roughs*, y rhai oeddent wedi d'od i fewn i dori fyny ei gwrdd gweddi; ar ol iddo i daro un arall i lawr ar y 'stryd am ymosod ar blentyn bychan, pan y cawsant ei fod bob amser ar ochr cyfiawnder, cymerasant ato yn rhyfeddol. A chyda'r fath fywyd a hwn, darllenai a myfyriai lawer, fel ag oedd ei amgylchiadau yn caniatau iddo i brynu llyfrau, oherwydd dymunai i fod yn feistr ar gwestiynau mawr y dydd, yn gystal a bod yn feistr y galon ddynol, yn ei datguddiadau beunyddiol o fywyd cyffredin. Pan y safwn ar lan afon, ac yn gwybod am ei tharddiad a'i rhediad, ni allwn yn rhwydd ragweled ei chwrs, a dyweyd i ba gefnfor y gwna ymarllwys. Felly yr oedd yn angenrheidiol gwybod gyrfa boreu oes y gweinidog ieuanc, er mwyn deall yn well yr hyn sydd i ganlyn.

(I'w barhau.)

Q. T.

"MI GOLLAIS FY MAM PAN YN HOGYN."

GLEDD miniog unigrwydd sy'n brathu drwy'm bron,
Gwawr hiraeth ordöa fy mywyd;
Lleddf droion marwolaeth, fel tòn ar ol tòn,
A ddeuant i chwyddo fy nhristyd:
Daw nodau llesmeiriol y fynwent i'm cwrdd,
Edrychaf ar welwder ei therfyn;
Fy ngruddiau sy'n arwain fy nagrau i ffwrdd:—
"Mi gollais fy mam pan yn hogyn."

Mae'r plantos yn chwareu ar gopa y twyn,
Yn nghwmni diniwed chwareuon;
Yn llawen garlamant gylch ogylch y brwyn,
Dan sugno naws iach yr awelon;
Mab ieuanc amddifad osodwyd naill du
Wyf finau, i ymladd â'r gelyn:
Mae dynion yn edrych i lawr arnaf fi,—
"Mi gollais fy mam pan yn hogyn."

Fy mam! O! mam anwyl! b'le mae fy hoff fam?
I b'le'r äf i edrych am dani?
Pruddglwyfus yw f'enaid am roi ati gam!
O! Dduw Ior, a gaf fi fyn'd ati?
Fy mam, ïe, mam! pwy fel mam? O! mam, mam!
Mae'n gorwedd yn meddrod y dyffryn:
Fy mam anwyl, anwyl! fy mam fach, ddinam!—
"Mi gollais fy mam pan yn hogyn!"

Ti, Arglwydd, sy'n gwybod sefyllfa fy mam,
O! dyro dangnefedd i'w henaid;
O! cofia am dani! O! cadw'i rhag cam!
O! gwrando fy ngweddi-ochenaid!
Fy mam! ïe, mam! pwy fel mam? O! mam, mam!
Mae'n gorwedd yn meddrod y dyffryn!
Fy mam anwyl, anwyl! fy mam fach, ddinam!
"Mi gollais fy mam pan yn hogyn!"

Trebanos. BEN DAVIES.

TOSTURI.

LLE bo mud, byddar, dall, neu gloff,
Fy ngwaith fydd hoff dosturio;
Pe gwawdiwn, haeddwn am y cam,
Gael dwyn y nam oddiarno.

Castell Hywel. D. D.

Y "REHEARSAL" YN NGHAPELYGROES.

(Cynygiwyd gwobr am y desgrifiad goreu o'r "Rehearsal" yn Nghapelygroes, a dyfarnodd y Parch. D. Evans y canlynol yn oreu.)

CYNALIWYD yr uchod, y cyntaf am 1897, dydd Sul, Mawrth 7fed, o dan arweiniad Mr. D. Eiddil Jones, Cefn, Merthyr, yr hwn sydd i fod yn arweinydd Cymanfa Ganu yr Undodiaid yn sir Aberteifi eleni, yr hon a gynelir yn Llanbedr. Yr oedd y *rehearsal* i ddechreu am haner awr wedi dau y prydnawn, ond yr oedd ychydig yn ddiweddarach. Er fy mod yn byw yn mhell o Gapelygroes, eto gan fy mod â thipyn o elfen at ganu, a'r diwrnod yn braf (yn debyg i'r diwrnodau yr ydym ni fel Undodiaid yn arferol o gael ar achlysuron o'r fath), penderfynais, yn nghyda rhai o'm cyfeillion, fyned tua Chapelygroes, ac ar y cyfan cawsom ein boddhau yn fawr. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. D. Evans, Cribyn, trwy ddarllen a gweddïo yn fyr ac i'r pwrpas. Yna cymerodd Eiddil at ei waith. Yr oedd dipyn yn fwy *strict* eleni nag y gwelais ef o'r blaen, yn enwedig mewn un cyfeiriad, sef *testo* y pedwar llais ar wahan. Yn gyntaf cafodd y *bass* gynyg, yna y *sopranos*, *altos*, a'r *tenors*. Ei brif amcan oedd, feddyliwn, er mwyn cael gwybod a oeddynt wedi dysgu y tônau, ac yn ol ei siarad ei hun, cafodd ei foddhau i'r eithaf. Wedi hyn canwyd y tônau canlynol, a chafwyd *good drilling* ar bob un ohonynt:—"Gwynfe," "Nantgau," "St. Aeldred," "Resolven," "Lydia," "Maesgwyn," "Gellionen," "Y Faenor," a "Phencoed," y *chant* "Tallis," dwy dôn y plant, a rhoddwyd cynygiad i'r cydgan. Yn ol fy marn i, canwyd y tônau oll yn fendigedig, oddigerth "Y Faenor" a "Phencoed," pa rai nid oeddynt wedi eu dysgu.

Gyda llaw, carem ddyweyd gair ar ddewisiad y tonau yn y pwyllgor. Y mae yn perthyn i'r undeb dair-ar-ddeg o ysgolion, ac yr oedd pob ysgol i ddewis un dôn; dewisodd Alltyplaca "Myfanwy," a Chaeronen "Wells." Nid oes un o'r ddwy wedi eu hargraffu yn y rhaglen, ond mae "Y Faenor" a "Pencoed" wedi eu rhoddi i mewn yn eu lle; ac y mae hyna, feddyliwn, yn beth achos eu bod heb eu dysgu. Canwyd dwy dôn y plant yn rhagorol, er nad oedd plant rhai ysgolion, fel y clywsom, wedi eu dysgu, yr hyn sydd yn feius iawn ar flaenoriaid y gân. Cyn cychwyn â'r cydgan, "Mawl fo i Dduw," gofynodd yr arweinydd i'r cantorion a oeddynt yn meddwl ei dysgu, ac arwyddodd y mwyafrif trwy godi eu deheulaw eu bod; yna cychwynwyd arni, ond yn y man dangoswyd eu bod heb ei dysgu o gwbl; ond penderfynwyd i'w dysgu yn drwyadl erbyn y *rehearsal* nesaf. Mynegodd yr arweinydd na chenir hi yn y Gymanfa os na bydd wedi cael ei dysgu yn dda. Canwyd y *chant* yn weddol, ag ystyried

mai dyma y tro cyntaf i ni, fel Undodiaid rhan uchaf sir Aberteifi, ei chynyg. Wedi ychydig o sylwadau gan yr arweinydd, canwyd y dôn "Aberystwyth" yn rhagorol; yna terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. Enoch Jenkins. Bûm bron ag anghofio ysgrifenu i Eiddil gynyg "Perlau Moliant" (2s. 6c.) i'r sawl a roddai yr hanes goreu am y *rehearsal;* y Parch. D. Evans, Cribyn, i fod yn feirniad, a'r buddugol i ymddangos yn yr YMOFYNYDD nesaf. Yr oedd yr arweinydd yn ei hwyliau goreu, nid gyda'r canu yn unig, ond, fel y gwelwch, gyda llenyddiaeth hefyd. Trwy hyn, y mae yn rhoddi cynorthwy i'r YMOFYNYDD, ac yn symbylu y bobl ieuainc i ymarfer â llenyddiaeth. Ar ein ffordd gartref, daethom i'r penderfyniad fod Eiddil yn arweinydd medrus. Felly, ymroddwn, un ac oll, i wneyd ein goreu i ddysgu y gwahanol donau yn ol ei awgrymiadau ef, a thrwy hyny ni a gawn Gymanfa dda, wrth fodd ein hunain, yr arweinydd, a Duw.

JACK.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU FEL EI COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

MAI 21L, 1897.

GWERS XXIII.—ADOLYGIAD.

MAI 9FED, 1897.

GWERS XXIV.—Y DAITH GENADOL GYNTAF YN GALILEA.—Marc i. 35-45 (cymharer Luc iv. 42-44; Matt. viii. 2-4; Luc v. 12-15.

Y TESTYN EURAIDD:—"*Canys y sawl a arweinir gan Ysbryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw.*"—Rhuf. viii. 14.

AR ol dydd o gymaint o waith a chyffro, nid yw ryfedd fod Iesu mewn angen gorphwys; ac mae'n ceisio am orphwysfa, nid trwy aros yn y tŷ, ond trwy fyned allan "yn blygeiniol iawn i le anghyfanedd" i weddïo. Trwy ymneillduo o faes ei lafur, mae'n adenill nerth meddwl yn gystal a chorff. Mae'n cael cyfleusdra hefyd i weddïo, i ddal cymundeb â Duw, ac i deimlo Ei agosrwydd a'i gariad. Mor syml a dynol yw yr hanes, ac mor anghydnaws â thybiau poblogaidd am Iesu. Yr oedd rheswm arall ganddo hefyd dros ymadael â Chapernaum. Yr oedd Ei boblogrwydd fel

un yn iachau clefydau pobl yn bygwth dinystrio Ei waith fel diwygiwr crefyddol. Tyrai pobl ato, nid fel meddyg yr enaid, ond fel meddyg y corff; ac yr oedd hyn yn ymyru â'r gwaith a ymddangosai iddo o fwy pwys. Felly, mae'n cilio o Capernaum, ac yn myned i'r trefydd nesaf er mwyn pregethu iddynt, "canys i hyny y daethum allan" (adnod 38).

Adnod 35.—*Yn blygeiniol iawn.* Neu yn mhell cyn dydd. Defnyddid y gair *plygain*, neu *pylgain*, am y gwasanaeth a gynelid yn yr Eglwys Sefydledig ar foreu Nadolig. Mae y gair bron myned allan o arferiad erbyn hyn. *Yno y gweddiodd.* Mae Marc yn son am Iesu yn myned o'r neilldu i weddïo ddim llai nag un-ar-ddeg o weithiau. Ni ddywedir beth oedd sylwedd y gweddïau hyn; ond yn ddiamheu mai yn yr oriau yma o gymundeb â Duw yr oedd Iesu yn cael Ei gyflenwi âg adnoddau ffydd ac ysbrydoliaeth a'i gwnaeth yn gymaint o orchfygwr ar y byd.

36.—*A Simon.* Mae Simon, neu Pedr, yn cymeryd y blaen o'r dechreu. *A'r rhai oedd gydag ef.* Sef Andreas, Iago, ac Ioan.

37.—*Y mae pawb.* Hyny yw, pobl Capernaum ag oedd Ef newydd ymadael â hi. *Yn Dy geisio Di.* Fel iachawr clefydau—cymeriad nad oedd Iesu yn ystyried yn bwysig yn ngwyneb amcanion goruchaf Ei ddyfodiad i'r byd.

38.—*Trefydd nesaf.* Golygai y rhai hyn rywbeth rhwng pentref a dinas—dinasoedd o ran maintioli, efallai, ond heb furiau yn eu hamgylchynu. Mae Iesu yn gadael Capernaum ac yn myned i bentrefi y wlad. Buasem ni yn ystyried poblogrwydd yn rheswm dros aros yn Capernaum. Meddyliai Iesu fod hyny yn rheswm dros ei gadael. *Fel y gallwyf bregethu.* Gwelwn mai pregethu yn Ei olwg Ef oedd Ei brif waith, a bod yn athraw crefyddol Ei brif genadwri. Yn y cymeriad yma mae yr Eglwys Gristionogol wedi colli golwg arno. Mae ganddi hi fwy i ddyweyd am dano fel y Prynwr a'r Iachawdwr. *Y daethum allan.* O Capernaum, meddai rhai; o Nazareth, meddai ereill; oddiwrth Ei Dad, meddai ereill. Wed'yn, nid yw o bwys mawr pa un, gan fod amcan Ei ddyfodiad yn cael ei osod allan heb un amheuaeth.

39.—*Trwy holl Galilea.* Cawn yn yr adnod yma hanes y daith genadol gyntaf trwy Galilea, yr hon a ddesgrifir hefyd yn Matthew iv. 23-25. Sylwn hefyd fod Iesu yn parhau hyd hyn i ddysgu yn y synagogau. *Yn bwrw allan gythreuliaid.* "Athrawiaeth Crist yw dinystr Satan."

40.—*Un gwahanglwyfus.* Am y gwahanglwyf, gwel Lefiticus xiii.; ac am ddarlun byw o'r trueni sydd yn nglyn âg ef, darllener Llyfr Job ii. 7, 8; vii. 3-5, 13-15; xvi. 8, 16; xix. 13-20, 30. Yr oedd y gwahanglwyf, nid yn unig yn glefyd atgas a pheryglus, ond yr oedd hefyd yn gwneyd dyn yn aflan yn ngolwg y ddeddf. Anfonid y rhai a ddyoddefent oddiwrtho allan i leoedd unig i fyw wrthynt eu hunain; a gorfodid hwy i waeddi allan "Aflan, aflan," pan y deuent yn agos at ddynion iach.

41.—Mae gwerth crefyddol yr amgylchiad yn gorwedd yn y ffaith fod Iesu wedi Ei gyffroi gan dosturi wedi cyffwrdd â'r gwahanglwyfus â'i law; ac yn y modd hyn wedi dangos fod un yr edrychid arno gyda dirmyg ac atgasrwydd yn deilwng o'i sylw Ef ac o'r help oedd Ef yn alluog i estyn iddo.

43.—*Wedi gorchymyn iddo yn gaeth.* Paham hyny? Yn ddiamheu am na charai gael ei adnabod fel iachawr clefydau. Ei amcan Ef oedd pregethu; ac er mwyn hyny y daethai allan (adnod 38). Yr oedd y cyffro a achosid gan weithredoedd rhyfeddol o'r fath hyn yn ymyru â'i wasanaeth fel athraw crefyddol; yn tynu sylw pobl at allanolion Ei waith, ac yn peri iddynt esgeuluso Ei sylwedd. Mae'r anhawsderau a geisiai Iesu eu gochelyd, ond yn ofer mewn cysylltiad â'r achos hwn, yn cael eu desgrifio yn adnod 45.

44.—Gwel Lefiticus xiv. 4.

GOFYNIADAU.

1. Pa bethau oedd Iesu wedi bod yn wneyd y dydd o'r blaen? 2. Beth yw "plygain"? 3. Sut ydych chwi yn cymodi y syniad o Iesu fel gweddïwr â'r syniad o'i Dduwdod? 4. Enwch y ddau reswm a arweiniodd Iesu allan o Capernaum? 5. At ba amcan y daeth Iesu i'r byd yn fwyaf neillduol. 6. Beth ydych chwi yn dybied oedd mater gweddïau Iesu? 7. Enwch y dysgyblion oedd yn ei ganlyn ar yr adeg yma. 8. Pwy oedd yn cymeryd y blaen? 9. Beth fuasai pregethwr poblogaidd yn wneyd yn awr—aros yn y brifddinas, neu myned ar hyd a lled y wlad i bregethu? 10. Yn mha gymeriad mae'r Eglwys Gristionogol yn arfer edrych ar Iesu? 11. O ba le yr oedd Iesu wedi dyfod allan yn adnod 38? 12. Yn mha leoedd yn y Beibl y cawn ni ddesgrifiad a darlun o'r gwahanglwyf?

MAI 16EG, 1897.

GWERS XXV.—IACHAU Y CLAF O'R PARLYS.—Marc ii. 1-13 (gweler Matt. ix. 1-8; Luc v. 17-26).

Y TESTYN EURAIDD:—"*Iesu o Nazareth a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni.*"—Actau x. 38.

AR ol bod yn absenol am ysbaid fèr, mae Iesu yn d'od yn ol am yr ail dro i aros yn Capernaum. A chyda Ei fod yn dechreu ar Ei waith yno, mae yn dyfod i wrthdarawiad â'r Ysgrifenyddion, y rhai a ffurfient ddosbarth cryf iawn yn amser Iesu. Dywed Luc fod yn mhlith y sawl a wrandawent ar Iesu Phariseaid a doctoriaid y gyfraith, y rhai a ddaethent yno o bob cŵr o'r wlad; ac mae Iesu, wrth geisio osgoi y poblogrwydd disymwth a wthid arno gan y gweithredoedd oedd Efe wedi gyflawni, yn cael Ei

Hun mewn penbleth â'r Ysgrifenyddion hyn, prif orchwyl y rhai oedd astudio y gyfraith, a gwneyd ei gofynion yn wybyddus i'w cyd-ddynion.

Adnod 1.—*Yn y tŷ*—neu, fel y ceir ar ymyl y ddalen yn y Cyfieithiad Newydd, *Gartref.* Yn ol pob tebyg, gwnaeth Iesu Ei gartref yn nhŷ Pedr.

2.—*Efe a bregethodd.* Yn ol y Cyf. Diw., "Efe a lefarai wrthynt," yn dynodi yr hyn a wnai pan ddygwyd ato y claf o'r parlys.

3.—*Un claf o'r parlys.* Clefyd ag oedd wedi amddifadu y dyn o nerth ei aelodau: nis medrai gerdded. Am hyny dygid ef gan bedwar.

4.—*Didoi y to a wnaethant.* Er mwyn deall yn gywir y dygwyddiad a gofnodir yn yr adnod hon, rhaid i ni gofio mai tŷ bychan oedd y tŷ hwn, isel, a'i ben yn wastad. Gwneid y to, fynychaf, trwy roi ceryg mawrion ar y trawstiau a gyrhaeddent o un ochr i'r tŷ hyd at yr ochr arall; ar y ceryg hyn, drachefn, teflid pridd, neu raian, yr hwn a wesgid i lawr yn galed. Torodd y dynion, yn gyntaf, trwy y pridd, fel y crybwylla Marc; ac wed'yn codasant y ceryg, neu y priddlechau, fel y dywed Luc. *Hwy a ollyngasant i waered y gwely.* Dywedir wrthym gan rai sydd yn gynefin â'r wlad mai peth hawdd iawn oedd gollwng y claf i waered. Nid oedd y to ond ychydig droedfeddi oddiar y ddaear; a thrwy blygu i lawr, a chydio yn mhedwar cornel y gwely, yr hwn nid oedd ond math o gwilt tew, gallent ollwng y dyn i lawr heb fawr anhawsder.

5.—*Maddeuwyd i ti dy bechodau.* Edrychasai yr Iuddewon ar bob afiechyd fel canlyniad pechod; ac yr oedd yn ddywediad yn eu plith na allasai unrhyw glaf gael ei iachau hyd nes y byddai i'w holl bechodau gael eu blotio allan. Ystyrir y brawddegau "Bydd iach," a "Maddeuwyd i ti dy bechodau," gan lawer yn gyfystyr. Dyweyd un oedd dyweyd y llall. Neu, am nad oes yna gysylltiad uniongyrchol rhwng yr awydd angerddol oedd yn y dyn i gael ei wella o'r parlys a dyweyd wrtho fod ei bechodau wedi eu maddeu, tybia ereill mai parlys moesol oedd yn blino y dyn, yr anallu hwnw i ganfod y pur a'r da ag y mae arferion llygredig yn gynyrchu. Yn ol y syniad hwn, gosodir y pwys, nid yn unig ar y cysylltiad rhwng maddeuant ac iachad, ond yn fwy fyth ar yr anhawsderau oedd gan y fath ddyn i'w gwynebu cyn dyfod at Grist, ar y ffydd a amlygid gan ei ymddygiad, ac ar yr anfoddlonrwydd a grëid yn meddyliau y dysgawdwyr crefyddol gan yr hyn a wnai Iesu.

10.—*Mab y Dyn.* Y teitl dewisol a gymhwysa Iesu ato Ei Hun yn yr Efengylau gan Matthew, Marc, a Luc. "Mab Duw" yw y term yn Efengyl Ioan. Mae yn bosibl fod y teitl wedi ei gymeryd o Dan. vii. 13-27. Yr oedd yr oll sydd mewn dyn yn

Iesu; Efe oedd y *type* a'r portreiad perffaith o'r hyn y dylai dyn, pan ar ei oreu, fod.

12.—*Ac y cymherth i fyny ei wely.* Nid oedd gwely y Dwyrain yn ddim amgen na math o *rug*, neu *mattress*, wedi ei daenu ar y llawr, yr hwn oedd yn ysgafn ac yn hawdd ei gario.

GOFYNIADAU.

1. Yn mha le, yn debygol, yr arosai Iesu pan yn Capernaum? 2. Pwy oedd yn mhlith ei wrandawyr ar yr achlysur hwn? 3. Pwy oedd yr Ysgrifenyddion? 4. Rhoddwch ddesgrifiad o'r modd yr adeiledid tai yn y Dwyrain yn amser Iesu. 5. Pa fath rai oedd y gwelyau? J. H. D.

MAI 23AIN, 1897.

GWERS XXVI.—(A) IESU YN NHY LEFI.—Marc ii. 14-17 (cymharer Matt. ix. 9-13; Luc v. 27-32).

Y TESTYN EURAIDD:—"*Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechaduriaid, i edifeirwch.*"—Marc ii. 17.

DYRY y dygwyddiad gyweirnod gweinidogaeth Iesu: cenadwr i'r gwrthodedig a'r colledig. I'r Iuddew, yr oedd talu treth i Rufain yn atgas. Mewn canlyniad, cashaent y dosbarth oedd yn eu casglu; ystyrient hwy y math gwaethaf o bechaduriaid, ac ni chymdeithasent â hwy yn un modd. Ar unwaith aeth Iesu i'w plith, a chymdeithasodd â hwynt, gan obeithio yn ddiamheu y gallai wneyd daioni iddynt. Yr oedd yn gofyn cryn ddewrder cyn gwneyd hyn, oherwydd gymaint o siarad fyddai hyn yn achosi. Yn ngolwg Iesu yr oedd bywyd y publican a'r pechadur mor werthfawr ag eiddo y Pharisead.

Adnod 14.—*Lefi, fab Alpheus.* Gelwir ef i ganlyn Iesu yn yr un modd â'r pedwar blaenorol (gwel pen. i. 16-19), mewn modd hollol ddirybudd; ond tebyg fod Iesu yn ei adnabod yntau hefyd cyn penderfynu ei alw i'w ganlyn. Matthew y gelwir ef yn yr Efengyl gyntaf, a Lefi yn y trydydd (gwel Matt. ix. 9, a Luc v. 27). Oddigerth yn Matt. x. 3, a Marc iii. 18, ni chlywir am dano dan yr enwau hyn ar ol y dygwyddiad hwn. Y tebygolrwydd yw fod Lefi, pan aeth ar ol Iesu, wedi cyfnewid ei enw. *Y dollfa.* Lle y cesglid y trethi a'r tollau gan swyddogion y Llywodraeth Rufeinig. Ger llaw mynedfa i dref, neu ffordd bwysig ar hyd yr hon y cèrid yn mlaen drafnidiaeth fawr, safai tŷ y trethgasglydd, neu y publican. Prisiai bob math o nwyddau a ddygid i fewn neu allan; ac yr oedd y perchenog yn gorfod talu swm neillduol o doll, yn ol gwerth y nwyddau. Ac yr oedd yn ngallu y trethgasglydd i godi llawer mwy nag oedd yn ddyledus, yr hyn a wneid yn gyffredin; a hyn oedd yn peri fod y trethgasglydd yn cael ei gashau i'r fath raddau.

15.—*Yn ei dy.* Yn nhŷ Iesu, fel y dywed rhai; ond mwy naturiol yw y dyb mai yn nhŷ Lefi oeddynt, fel y dywed Luc. *Llawer o bublicanod.* Yr oedd Capernaum ar y ffordd rhwng Damascus a Ptolemais. Yr oedd hefyd yn un o'r trefydd mwyaf pwysig ar làn Mor Galilea. Hyn sydd yn cyfrif fod cymaint o bublicanod yn y lle. *Pechaduriaid.* Nid dynion o gymeriad drwg, o angenrheidrwydd; ond Cenedloedd—pawb tuallan i'r genedl Iuddewig, gan nad beth eu cymeriad. *A hwy a'i canlynasant Ef.* Yr oedd eistedd i fwyta gyda rhywun yn arwydd o gydymdeimlad; ac i'r bobl hyn yr oedd cael un i gydymdeimlo â hwynt yn brofiad newydd, ac nid rhyfedd eu bod wedi Ei ganlyn. Ei allu i gydymdeimlo oedd un o'r elfenau mwyaf amlwg yn nghymeriad Iesu.

16.—*Yr Ysgrifenyddion.* Gwel Gwers xxi., adnod 22. *Phariseaid.* Ystyr y gair yw un wedi ymneillduo—ymneillduwr. Yr oeddynt wedi ymffurfio yn blaid ar wahan i gorff y genedl, am eu bod yn gosod cymaint o bwys ar draddodiadau, ac am eu bod yn ystyried nad oedd y genedl yn gyffredin yn cadw y ddeddf yn ddigon manwl. Credai y ddau ddosbarth fod eu ffyddlondeb i'w crefydd yn gofyn ganddynt i ymwrthod â'r dynion hyn yn llwyr. Ac nis gallent ddeall sut oedd Iesu yn cymdeithasu â hwynt, ac yntau, ar yr un pryd, yn proffesu Ei Hun yn genad oddiwrth Dduw.

17.—Fel nad yw y meddyg yn cael ei anfon at yr iach, ond at y claf; felly, nid at y cyfiawn mae eisieu i'r Dysgawdwr a'r Diwygiwr fyned, ond at bechaduriaid. Dyma ateb Iesu iddynt.

(B) YMPRYDIO.—Marc ii. 18-20 (cymharer Matt. ix. 14-17; a Luc v. 33-39).

Sonir llawer yn yr Hen Destament am ymprydio. Darllener (1) Lef. xvi. 29, &c.; xxiii. 27, &c.; Num. xxix. 7. (2) Joel i. 14; ii. 12-15; Zech. vii. 5; Dan. x. 3; 1 Sam. xxxi. 13; 2 Sam. xii. 16. Gwelwn oddiwrth yr uchod fod ymprydio yn cael ei arfer gan yr Iuddewon yn rheolaidd (1) ar ddydd Gwyl y Cyfamod, ac yn achlysurol (2) fel gweithred o hunanymwadiad, trwy yr hon y gobeithient allu enill ffafr Duw. Erbyn amser Iesu, yr oedd yr arferiad yn fwy cyffredin. Ymprydiai y Phariseaid mor aml a dwywaith yn yr wythnos (Llun ac Iau); ac mewn canlyniad, nid oedd bellach ond defod. Casglwn oddiwrth yr ymddyddan hwn rhyngddo â'r bobl hyn nad oedd Iesu yn groes i ympryd, ond Ei fod am ei hadfer i'w lle briodol, a'i gwneyd yn arferiad gwirfoddol, ac nid defod ddiamcan.

18.—Yr oedd Ioan yn y carchar; and tebyg fod ei ddysgyblion wedi cadw gyda'u gilydd ar ol ei garchariad, ac hyd yn nod ar ol ei farwolaeth. Ceir hanes am danynt yn Actau xix. 1-5. Yr oedd llawer o debygolrwydd rhwng Ioan a'i ddysgyblion a'r Phariseaid. Sylwer ar ei ddull o fyw yn yr anialwch; a thebyg fod

ei ddysgyblion wedi syrthio yn ol at eu hen arferion Iuddewig i raddau helaeth.

19.—*Plant yr ystafell briodas.* Cyfeillion y priodfab. Yn y gwledydd dwyreiniol, yr oedd gwleddoedd priodasol yn parhau am ddiwrnodau—weithiau am wythnos. Yn ystod yr amser hwn nid oedd lle i ympryd, ond, yn hytrach, i lawenydd. Felly, hefyd, tra yr oedd Efe gyda hwynt, nid oedd achlysur iddynt i ymprydio.

20.—*Y priodfab.* Iesu. *Oddiarnynt.* Y dysgyblion. Yr oedd yr adeg ar bwys pan y dygid Ef oddiarnynt; ac yna, pan ddelai profedigaethau i'w cyfarfod, oherwydd eu llafur dros ledaeniad Ei Efengyl, a phan na byddai Efe gyda hwynt i'w cysuro a'u calonogi, byddent yn drist a digalon. A hon fyddai yr adeg briodol i ymprydio. Mae Iesu yn amlwg yn condemnio ympryd fel defod, tra yn cydnabod ei naturioldeb mewn adegau o ofid a digalondid.

GOFYNIADAU.

Beth yw cyweirnod gweinidogaeth Iesu yn ol y geiriau hyn? Desgrifiwch ymddygiad y Phariseaid at y publicanod. Beth oedd achos yr ymddygiad hwn? Sut ymddygodd Iesu atynt yn wahanol? Beth oedd yn achosi y gwahaniaeth? Pwy oedd Lefi? Dan ba enw arall y sonir am dano, ac yn mha le? Pwy oedd y pedwar oedd wedi eu galw o flaen Matthew? Sut y cyfrifir ei fod yn cael ei alw wrth ddau enw gwahanol? Beth oedd tollfa? Pa le oeddynt yn gyffredin? Desgrifiwch ddyledswydd y tollgasglydd? Yn nhŷ pwy oedd Iesu? A oes gwahanol dybiau ar hyn? Pa un ohonynt yw y mwyaf naturiol? Beth sydd yn cyfrif fod y fath nifer o bublicanod yn Capernaum? Pa fath ddynion oedd y pechaduriaid? Beth oedd un o'r elfenau mwyaf amlwg yn nghymeriad Iesu? Beth wyddoch am y Phariseaid? Beth ofynasant i'r Iesu, a pha beth oedd yr ateb? Beth olygai wrth hyn? Pa hanes sydd genym am y ddefod o ympryd yn yr Hen Destament? Pa mor aml yr arferid hi yn amser Iesu? Yn mha oleuni yr edrychai Iesu arni? Pa le yr oedd Ioan ar yr adeg yma? Pa brawf sydd fod ei ddysgyblion wedi cadw gyda'u gilydd ar ol ei farwolaeth? Ar ba arferiad y seiliodd Iesu ei gyffelybiaeth yn 19 a 20? Pwy yw y priodfab yn 20? Desgrifiwch sut y mae y gyffelybiaeth yn un briodol. D. E.

"YR EILLIWR."

(BUDDUGOL.)

YR eilliwr gyrai'i ellyn—hyderus
Am dori pob blewyn;
Uwch y ddôr, cyfarcha ddyn
I'w balas gan hir bolyn.

Tylorstown. PEIRIANYDD.

YR UNDODIAID A CHYFRAITH PRIODI.

WRTH droi tudalenau "Seren Gomer" am 1837, gwelais hanes cyfarfod o weinidogion Undodaidd yn Nghaerfyrddin, Rhagfyr 29ain, 1836, y Parch. David Lloyd, M.A., yn y gadair, yn mha un y penderfynwyd: "Gan nad oedd y gyfraith newydd a basiwyd y flwyddyn hono, i alluogi Ymneillduwyr i briodi yn y capelau, yn foddhaus, y byddai iddynt hwy fel enwad barhau i briodi yn yr Eglwysi, fel o'r blaen." Arwyddir yr hanes gan y Parchn. John James; John Thomas; Rees Evans; John E. Jones; Owen Evans; Thomas Rees; David Evans; William Williams; Thomas Evans; a William Jones.

A fydd rhai o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD gystal a rhoddi ychydig wybodaeth yn nghylch y cyfarfod hwn; y rhesymau a ddygid yn erbyn y gyfraith newydd; a pha bryd y newidiodd yr enwad ei farn ar y gyfraith newydd.

D. M. R.

YR ANMHRIODOLDEB O GNOI MYGLYS YN Y CAPEL.

NI luniwyd y Ddwyfol anedd—weddus
I guddio rhyw fudredd;
Y mae arogl anmhuredd
Ar y Sul dan lawer sedd.

Da yw estyn gwrthdystiad—i achos
Ddug uchel gondemniad;
Crea blys y "myglys mâd"
Arwyddion anwareiddiad.

Tylorstown. PEIRIANYDD.

"GWEDDEIDD-DRA YN NHY DDUW."

HYF hogyn na ryfyga—yn Nhy Dduw,
Cofia ddwyn gweddeidd-dra;
Da gymod Duw gei yma,
Gwylia'n ddwys, os gweli'n dda.

Tylorstown. PEIRIANYDD.

MANION AC HANESION.

Y Llyfr Tonau—Gan fod nifer fawr o'r Llyfr Tônau wedi eu dosbarthu, carwn glywed oddiwrth y cyfeillion hyny ag ydynt wedi ymgymeryd â gwerthu'r llyfr, er gwybod eu helynt. Bydd yn hyfrydwch genyf, hefyd, i anfon copïau i bawb a ewyllysiant gael rhai.—*D. Eiddil Jones.*

Caeronen. — Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl dê flynyddol ar y 19eg o Fawrth, yn yr ysgoldy perthynol i'r capel. Cafwyd arlwy rhagorol o dê a bara brith yn y prydnawn, ac yn yr hwyr gwrdd llenyddol da yn y capel—pob un ar ei oreu.

Y Graig a Gellionen—Cyfarfodydd nad anghofir yn fuan oedd y cyfarfodydd pregethu haner-blynyddol a gymerasant le yn y Graig, Sul a nos Lun, Ebrill 11eg a'r 12fed. Y pregethwyr oeddynt y Parchedigion Arthur Thomas, Pantydefaid, a Lewis Williams, Rhydygwin a'r Ciliau. Cafwyd oedfaon hwylus o'r dechreu i'r diwedd, a chasgliadau dymunol iawn, yn nghyda phregethau wedi eu heneinio âg ôl llafur y ddau bregethwr ieuanc talentog. Rhwydd hynt iddynt ar y maes pregethwrol, yw dymuniad y bobl Undodaidd yn y lleoedd hyn.

Brondeifi.—Ebrill 16eg, rhoddwyd gwledd o dê a bara brith i aelodau Ysgol Sul Brondeifi, ac ereill, a gwledd ragorol oedd. Cafwyd tywydd ffafriol iawn at y gwaith, er ei bod mor arw yn y boreu. Yn yr hwyr cafwyd cwrdd adloniadol gan y plant, ac aethant drwy eu gwaith yn hynod dda, ac ystyried nad oedd ond ychydig ragbarotoi wedi bod. Cadeiriwyd gan Mr. G. J. Davies, Penlan.

Y Gynadledd yn Sheffield.—Yr ydym wedi derbyn adroddiad campus o weithrediadau y Gynadledd hon, gan un oedd yno; ond oherwydd ein bod yn myned i'r wasg mor gynar, yr ydym o dan orfod i'w gadw hyd y rhifyn nesaf.

Dowlais. — Cynaliwyd cyfarfodydd sefydlu y Parch. J. E. Jenkins yn weinidog yn Nowlais, y Sul a'r Llun, Ebrill 18fed a'r 19eg. Gwasanaethwyd y Sul gan y Parchn. E. E. Jenkins, Capelygroes; Hathren Davies; a J. Davies, Alltyplaca. Ddydd Llun, yn ychwanegol at yr uchod, cafwyd gwasanaeth y Parchn. J. Thomas, Aberdar; Dr. Griffiths; P. Moore, B.A.; a Mr. D. Evans, Aberdar. Cafwyd cyrddau ardderchog.

Llundain.—Mae y Parch W. James, B.A., Y.H., i bregethu i'r gynulleidfa Undodaidd Gymreig am dri Sabbath, yn dechreu ar Sul y Pasg.

MARWGOFION.

Mawrth 17eg. Mary Davies, Caersalem House, ger Llanbedr, ar ol cystudd maith o'r *cancer*, gweddw y diweddar Mr. John Davies, Blaenbydernin, Pencareg. Gadawodd ar ei hol mewn dwys hiraeth ar ol colli mam, yn ngwir ystyr y gair mam, Mr. T. D. Davies, yr hwn sydd yn ngwasanaeth yr heddlu yn Aberdar, swydd Forganwg, a Mrs. Evans, Pantstrimon, Pencareg. Claddwyd yr hyn a adawyd yn weddill gan angeu y dydd Sadwrn canlynol yn nghladdfa y teulu yn Mhencareg. Gwasanaethwyd ar yr amgylchiad gan ei pharchus weinidog, y Parch. H. James, Aberduar, ac yn yr Eglwys gan y Parch. J. Lewis, ficer y plwyf. Heddwch i lwch y Cristion.—*T. D. E.*

Mawrth 19eg, Leticia Lloyd, anwyl briod Richard Lloyd, 23, Clara Street, Ton, Cwm Rhondda, yn 52 mlwydd oed.

Nid oedd iechyd yr ymadawedig yn rhyw dda iawn er's blynyddoedd, ond cafodd ei symud yn y diwedd, ar ol cystudd cymharol fyr. Yr oedd yn enedigol o ardal Llanbedr, a threuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn ardal ei genedigaeth. Arferai fynychu capel Brondeifi, ac yr oedd yn aelod o'r eglwys hono. Menyw ddystaw, dawel, hawddach i'w gweled na'i chlywed oedd Mrs. Lloyd. Gadawodd i alaru ar ei hol briod, a phlant, a mam oedranus. Bydded fod y gobaith am ail-gyfarfod, a hyny mewn gwlad well, yn codi i fyny y penau gogwyddedig, ac yn syohu dagrau hiraeth. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohoni yn *cemetery* Treorci.

Mawrth 29ain, yn 80 mlwydd oed, William Ash, o'r Drefnewydd yn Nottais. Yr oedd Mr. Ash yn un a berchid yn fawr yn ei ardal, ac yn aelod mwyaf ffyddlon a gwerthfawr o'r eglwys Undodaidd yn Nottais. Ar y laf o Ebrill, claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys y Plwyf. Yn y ty, gwanasaethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A.; ac yn y fynwent gan Mr. Jones, y Parch. W. J. Phillips, gweinidog yr ymadawedig, a'r Parch. D. Evans (A.).

Mawrth 29ain, ar enedigaeth plentyn, Jane Davies, anwyl briod John Davies, Esgaircrwys, Llancrwys, a merch Timothy Davies a Mrs. Davies, diweddar o Esgaircorn, yn 30 mlwydd oed. "Nis gwyddom beth a ddygwydd mewn diwrnod." Dyma deimlad anwyliaid ein chwaer ymadawedig hon am ddygwyddiadau y dydd uchod. Gan nad oedd neb ohonynt yn y boreu yn ofni niwed, mae un yn cael ei yru i'w faes ac arall i'w fasnach, ac ar ol goruchwylion cyffredin bywyd, a hithau yn eu plith; ond erbyn yr hwyr, y mae hi wedi canu'n iach i'r fuchedd hon, gan adael priod, tad a mam, a pherthynasau ereill mewn penbleth a galar. Ar y dydd Gwener canlynol, daeth torf luosog yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf ar y ddaear, ac i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr trallodus. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn cael ei gynorthwyo gan offeiriad y plwyf. Claddwyd ei gweddillion yn Methel, Cwmpedol, a gwasanaethwyd ar làn y bedd gan y Parch. Mr. Thomas (B.), gweinidog y lle.

Ebrill 6ed, John Bowen, Alltwen, Pontardawe, trwy farwolaeth sydyn iawn, yn 50 mlwydd oed. Dyma un eto o arweinyddion cenedl arall y ganrif bresenol wedi syrthio yn y frwydr. Pwy erioed feddyliodd am agosrwydd marwolaeth John Bowen? Neb. Bendithied yr Arglwydd ei weddw unig a'r plant yn y cyfwng trallodus hwn. Bu yn y cyfarfodydd y Sul blaenorol drwy y dydd. Rhybudd byr iawn gafodd; ond nid oedd yn rhy fyr iddo ef, oblegid yr oedd wedi parotoi yn helaeth iawn ar gyfer yr amgylchiad mawr. Mae'r golled mor fawr fel nas gallwn ddyweyd ei hyd a'i lled. Yr oedd John Bowen yn ddiacon yn yr wythnos fel ar y Sabbath. Y mae hwn, er wedi marw, yn llefaru eto. Dyn da oedd John Bowen. Gallem lefaru cyfrolau am dano, ond ni chaniata gofod. Y dydd Gwener canlynol, daeth lluaws mawr yn nghyd o bell ac agos i gludo ei farwol ran i gydorwedd gyda meirwon mynwent Gellionen. Gwasanaethwyd cyn cychwyn, ac yn y capel, gan y Parch. T. J. Jenkins, ei barchus weinidog; ac ar làn y bedd, gan y Parch. Rees Lewis (B.), Craigcefnparc. Coffa da am dano, brydferth Gristion.

Ebrill 10fed, ar ol misoedd o gystudd, yn 78 mlwydd oed, Eleanor, gwraig William Lewis, Brynmaen, Llanwenog. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys Llanwnen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur, yn y ty, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca; ac yn yr Eglwys gan yr offeiriad.

Ebrill 13eg, ar ol misoedd o wendid cyffredinol drwy yr holl gyfansoddiad, yn 74 mlwydd oed, Margaret, anwyl briod Jenkin Thomas, Bwlchybryn, Llandysilio. Claddwyd ei gweddillion marwol yn mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd ar yr achlysur, i glywedigaeth tyrfa fawr, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

"Melus i bererin blin
Wedi siwrnai ydyw hun."

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland Street, Merthyr.